

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 239 (Cymru) – 15 Mai 2019

Etholiad Senedd Ewrop: adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr

Ychydig dros wythnos sydd ar ôl bellach i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fwrw eu pleidlais yn etholiadau Senedd Ewrop ddydd Iau 23 Mai.

Rydym wedi datblygu cyfres o bosteri a delweddau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol er mwyn eich helpu i hyrwyddo negeseuon allweddol cyn, ac ar, diwrnod y bleidlais.

Mae'r adnoddau'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- pryd fydd yr etholiadau'n digwydd
- dod o hyd i leoliadau gorsafoddedd pleidleisio
- cael cymorth yn yr orsaf bleidleisio

[Lawrlwythwch yr adnoddau nawr.](#)

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (PACAC) i ddiwygio cyfraith etholiadol

Ar 8 Mawrth lansiodd PACAC ymchwiliad newydd a oedd yn archwilio'r achos dros ddiwygio cyfraith etholiadol yn gynhwysfawr. Mae'r pwyllgor yn ceisio barn ar ba mor daer yw'r angen i ddiwygio etholiadau yn gynhwysfawr, beth y dylid ei flaenoriaethu, ac a oes angen mynd y tu hwnt i [gynigion Comisiynau'r Gyfraith](#) a amlinellir yn eu hadroddiad interim 2016. Gellir dod o hyd i fanylion am y cwestiynau penodol yn eu [cylch gorchwyl](#).

Mae'r Comisiwn wedi ymateb i'r cais am dystiolaeth ysgrifenedig, a byddai hefyd yn annog eraill i gyflwyno eu barn erbyn y dyddiad cau, sef 3 Mehefin. Gellir ymateb [ar-lein](#). Efallai y bydd ein [hymateb](#) yn ddefnyddiol i chi o ran datblygu eich ymateb eich hun.

Rydym wedi defnyddio ein hymateb i dynnu sylw at y canlynol:

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad Senedd Ewrop: adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr

Trosolwg o adnoddau a ddyluniwyd i helpu pleidleiswyr, a dolenn i'r adnoddau hynny.

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (PACAC) i ddiwygio cyfraith etholiadol

Gwybodaeth am ymchwiliad y PACAC i ddiwygio cyfraith etholiadol ac ymateb y Comisiwn Etholiadol, a dolenni i'r wybodaeth honno.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Fe'u defnyddir fel un ffordd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danystrifio i'r [Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk

Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau o ran staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

- Yr angen dybryd am gyfraith etholiadol symlach a mwy modern, i ategu effeithlonrwydd, arloesedd a hyder pleidleiswyr o ran gweinyddu etholiadau a rheoleiddio ymgyrchoedd.
- Nad problem dechnegol neu gyfreithiol yn unig yw hon – mae costau a chanlyniadau gwirioneddol i bleidleiswyr, ymgyrchwyr a swyddogion etholiad.
- Ein parodrwydd i weithio gyda llywodraethau a seneddau'r DU a chyfrannu'n llawn at agenda foderneiddio a diwygio cyfraith etholiadol.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

Rydym yn anfon y cylchlythyr atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswilt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.